

Dyfodol Cefnogaeth ar gyfer Gweithredu Cymunedol yn Sir Benfro

Adroddiad ar y Cyfarfod Aml-asiantaeth a Gynhaliwyd ar y 18^{fed} o Fehefin 2020

Sue Denman Ymddiriedolwr, Jessie Buchanan Ymchwilydd, Gofal Solfach

1. Cefndir

- 1.1 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o ddau sy'n crynhoi'r cyflwyniadau a'r trafodaethau mewn dau gyfarfod awr a hanner, ar-lein, a gynhaliwyd ar y 18^{fed} a'r 30^{ain} o Fehefin ynghylch dyfodol cefnogaeth ar gyfer gweithredu cymunedol yn Sir Benfro. Yn y cyfarfod ar y 18^{fed} o Fehefin yr oedd cynrychiolwyr cefnogaeth y trydydd sector a sefydliadau'r sector cyhoeddus yn bresennol.
- 1.2 Trefnwyd y cyfarfod gan Gofal Solfach, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a PLANED, partneriaid yn y Prosiect *Gyda'n Gilydd dros Newid*. Bydd y Prosiect yn canolbwyntio ar gefnogaeth bresennol ac ôl-COVID19 i grwpiau cymunedol newydd a rhai sefydledig, gyda rhaglen ymchwil a datblygiad o fentoriaeth a dysgu ar y cyd. Y bwriad yw y bydd canlyniadau'r ddau gyfarfod yn bwydo i mewn i gynllun gweithredu'r Prosiect ac y byddant hefyd o ddefnydd i grwpiau a sefydliadau cymunedol ar draws pob sector sy'n ymwneud ag ailadeiladu cymunedau ar ôl COVID19.

2. Y Rhaglen

- 2.1 Dechreuodd y cyfarfod ar y 18^{fed} o Fehefin gyda chyflwyniadau o safbwynt cymuned, Gofal Solfach; sefydliad cefnogi trydydd sector, PAVS; a'r sector cyhoeddus, Cyngor Sir Penfro (CSP) a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Sir Benfro. Gofynnwyd i'r cyflwynwyr siarad am effeithiau COVID19 ar y boblogaeth a dweud sut y bydd y wybodaeth honno yn llywio eu gwaith.
- 2.2 Dilynwyd y cyflwyniadau gan grwpiau llai, i drafod syniadau am sut y gallwn, gydag enillion cyflym, gynnal a harneisio'r egni oedd mor amlwg mewn cymunedau o dan COVID19 a'r ffactorau fyddai'n gymorth neu'n rhwystr i'r nod honno.
- 2.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o gynnwys y cyflwyniadau a'r trafodaethau. Nid yw'r syniadau a'r atebion o reidrwydd yn cynrychioli consensws a gyrrhaeddwyd yn y cyfarfod, er y nodwyd bod cryn gytundeb ar rai egwyddorion sylfaenol ynglŷn â'r ffordd i fynd ymlaen mewn partneriaeth.

3. Beth ydym ni'n ei wybod am effeithiau COVID19?

- 3.1 Mae COVID19 wedi cael effaith ddinistriol ar fywydau pobl drwy effeithio ar benderfynyddion iechyd a lles. Mae rhai o'r effeithiau negyddol hyn yn debygol o gael eu teimlo am amser maith i ddod. Mae'r cyfyngiadau a osodwyd ar bobl, ynghyd â'r tarfu ar batrymau byw arferol a diffyg cyswllt cymdeithasol, wedi cael effaith ddofn ar iechyd meddwl. Allan o boblogaeth o 125,000 yn y Sir, gofynnwyd i oddeutu 5,000 o bobl gysgodi, gan eu cyfyngu i bob pwrpas i'w cartrefi y rhan fwyaf o'r amser. Mae grwpiau wedi nodi cynnydd mewn trais domestig. Mae gofalwyr di-dâl, a phobl â dementia ac anawsterau dysgu wedi cael trafferth ymdopi. Mae

busnesau wedi dioddef ac mae colli swyddi ar y gorwel – gan ychwanegu at gynnydd mewn tlodi. Mae ofn cyffredinol ynghylch y dyfodol ymhlith pob sector o gymdeithas. Mae sefydliadau'r trydydd sector eisoes yn gweld colli incwm ac yn teimlo'n ansicr ynghylch y dyfodol.

- 3.2 Fodd bynnag, mae'r trychineb pellgyrhaeddol hwn wedi arwain at lawer y gallwn ei ddathlu, yr hyn a elwir yn 'leinin arian' mewn cyfnod llwm. Mae 100 o grwpiau cymunedol newydd wedi dod i fodolaeth fel aelodau o Rwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro (RhCCSB). Mae pobl wedi ymaddasu i weithio o gartref, gan arwain at lai o geir ar y ffordd, sydd wedi bod o fudd i'r amgylchedd. Mae ysbryd cymunedol cryfach wedi gweld unigolion a grwpiau newydd yn dod i'r amlwg ac yn symud yn gyflym i gefnogi a diogelu'r rheiny sydd mewn angen.

'Mae newid yn dod o'r tu mewn. Mae angen i atebion ar gyfer iechyd a lles ddeillio o'r unigolyn o fewn ei gymuned – gan ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus a pharchu'r rhain'

Elaine Lorton Cyfarwyddwr Sirol y GIG a chyflwynydd

- 3.3 Mae nifer y bobl sy'n cynnig gwirfoddoli wedi cynyddu'n ddramatig. Mae grwpiau cymunedol wedi gweithio'n ddiflino ac yn greadigol, gan rannu eu syniadau drwy'r Hwb a RhCCSB Sir Benfro er budd pobl eraill. Mae yna nifer syfrdanol o 1,000 o grwpiau yn bodoli, yn Sir Benfro, i gyd yn gweithio ar atebion lleol i broblemau ac yn cael y gorau allan o'r llu o asedau sydd gan y Sir i'w cynnig. Gan fanteisio ar y twf mewn gwaith partneriaeth, a heb rwystr biwrocratiaeth, mae'n amlwg bod llawer wedi'i gyflawni mewn cyfnod byr.
- 3.4 Ochr yn ochr â'r grwpiau newydd, bu modd i'r rhai oedd eisoes yn bodoli addasu a newid yn gyflym i gyd-fynd â'r amgylchiadau newydd a grëwyd gan yr argyfwng.

'Rydym wedi mabwysiadu agwedd gyffredinol at les, yn lleol, sy'n cwmpasu atebion unigol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Credwn y bydd hyn yn ein helpu i ailadeiladu cryfder a gwytnwch ein cymuned. Efallai y bydd hyn o ddefnydd i eraill wrth inni symud ymlaen 'Gyda'n Gilydd Dros Newid'

Sue Denman, Ymddiriedolwr Gofal Solfach a chyflwynydd

- 3.5 Hefyd, ar yr ochr gadarnhaol, mae ein gwasanaethau, a ddarperir gan y trydydd sector a'r sectorau statudol, wedi ymdopi'n dda yn wyneb pwysau difrifol. Yn ogystal â delio'n strategol â'r bygythiadau a achosir gan COVID19, maent hefyd wedi llwyddo i gadw rhai gwasanaethau rheolaidd i fynd.

4. Trafodaeth

4.1 Pwysigrwydd gweithredu ar lefel gymunedol

- 4.1.1 Pwysleisiai'r holl grwpiau gyfraniad pwysig cymunedau i les, rhywbeth sydd wedi dod yn amlycach fyth yn ystod y pandemig. Mae gwybodaeth leol, gweld arweinwyr yn dod i'r amlwg ynghyd â chynnydd mewn gwirfoddoli

wedi galluogi llawer o grwpiau cymunedol i deilwra cymorth mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd wedi bod yn ddigymell, yn egniol ac yn dosturiol. Mae technolegau digidol wedi gwneud cyfathrebu effeithlon yn bosibl ar y lefel leol ac mae'r adnoddau ar draws y sir wedi gweithio'n dda o ran rhannu a chyfeirio gwybodaeth.

- 4.1.2 Mae angen adeiladu gwytnwch cymunedol o'r gwaelod i fyny a'r grwpiau cymunedol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eu blaenoriaethau a sut i weithio arnynt. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at y gwendidau yn ein systemau a'r meysydd y mae angen buddsoddi ynddynt ar frys. Fodd bynnag, bydd llwyddiant yn dibynnu ar ddull cydweithredol o weithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau, gan gynnwys y sector preifat, a gyda chymunedau yn cymryd rôl allweddol yn y broses o wneud penderfyniadau gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth yw anghenion eu poblogaethau. Mae'n rhaid mynd i'r afael â chynladwyedd grwpiau cymunedol yn ystod y cyfnod pontio hwn wrth i egni ddiffygio, pwysau ariannol bentyrru a niferoedd gwirfoddolwyr ostwng a phobl yn mynd yn ôl i'w gwaith. Mae angen ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth gymunedol yn y Sir gan gofio bod cymunedau'n gwahaniaethu'n fawr o ran eu blaenoriaethau, eu hasedau a'u gallu i gymryd rhan mewn gweithredu cymunedol a drefnir. Gyda golwg ar yr economi, dylem barhau i ganolbwyntio ar adeiladu cyfoeth lleol, cwtogi cadwynau cyflenwi a dull yr economi gylchol.

4.2 Syniadau ac Atebion

Er mwyn mynd ymlaen yn hyderus ac mewn undod, mae angen inni weithredu ar chwe maes cyffredinol:

- Gwerthoedd ac egwyddorion sylfaenol
- Gwybodaeth i lywio'r ffordd ymlaen
- Llais dros gymunedau
- Cadw ein gwirfoddolwyr ac annog gwirfoddoli
- Cyfathrebu da sydd o fewn cyrraedd pawb
- Dileu'r rhwystrau ar ffordd newid

Mae arnom angen:

Gwerthoedd ac egwyddorion sylfaenol

- 4.2.1 parch ac ymddiriedaeth rhwng ein sefydliadau i baratoi'r ffordd ar gyfer gweledigaeth a fframweithiau cytunedig, sy'n cynnwys atebion cymdeithasol a gwyrdd.
- 4.2.2 tryloywder a dealltwriaeth gyffredin o rolau a chysylltiadau gwaith rhwng sefydliadau
- 4.2.3 sefydlu cydgynhyrchu a ffocws cymunedol yn y broses gynllunio
- 4.2.4 agwedd gadarnhaol o ran yr hyn y gallwn geisio ei wneud gyda'n gilydd, gyda hyblygrwydd ac atebion syml os ydym i ddal i ymgysylltu
- 4.2.5 cymunedau wedi eu grymuso, yn cymryd rhan weithredol mewn datrys problemau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw.

'Cryfder gweithredu cymunedol ydy nid symud grym yn gyfan gwbl, ond rhannu grym, ac mae'r adborth a'r cyfraniadau yn y digwyddiad hwn yn dystiolaeth i'r parodrwydd hwn i gydweithio mwy gyda'n cymunedau.'

Iwan Thomas Prif Weithredwr PLANED a Chadeirydd y cyfarfod

Gwybodaeth i lywio'r ffordd ymlaen

- 4.2.6 ychwanegu at y niferoedd sydd gennym eisoes gyda rhywfaint o fanylion am y grwpiau a'r sefydliadau dan arweiniad y gymuned sy'n bod yn awr, eu profiadau a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol
- 4.2.7 barn ynghylch yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim, yn y gweithgareddau dan arweiniad y gymuned a'r strwythurau cysylltiedig
- 4.2.8 nodi bylchau mewn darpariaeth gan dynnu sylw at yr anghydraddoldebau i ymdrin â nhw fel blaenoriaeth yn y cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- 4.2.9 gwybodaeth well am y rolau a'r cysylltiadau rhwng sefydliadau er mwyn sicrhau tryloywder a chydgyssylltu
- 4.2.10 nodi ffactorau sy'n helpu neu'n llesteirio cynaladwyedd ymdrechion cymunedol drwy edrych yn ôl ac ymlaen hefyd.

'Mae'n rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu gwasanaethau statudol, ond y tu hwnt i hynny mae yna le inni sicrhau atebion drwy gydgyhyrchu gyda chymunedau'

Ian Westley Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro a chyflwynydd

Llais dros gymunedau

- 4.2.11 derbyn nad yw'r un peth yn addas i bawb ac edrych am ffyrdd i roi'r cymhelliad i gymunedau gychwyn a pharhau i ymgysylltu a gweithredu
- 4.2.12 atebion sut i annog arweinyddiaeth ar y lefel leol, a rhoi cymorth i'r arweinwyr hynny
- 4.2.13 ystyried y strwythurau gwleidyddol lleol sydd mor bwysig ond yn amrywio'n fawr o ran pa mor effeithiol ydynt. Y rhain ddylai fod yn sylfaen i brosesau democrataidd lleol ac ymgysylltiad. Datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng Cyngorau Tref a Chymuned a Chynghorwyr Sir ac edrych am ffyrdd y gall y cyntaf gael eu cryfhau er budd lleol a'r olaf fod yn hyrwyddwyr a chefnogwyr ar draws yr holl wardiau.
- 4.2.14 Cynulladau Dinasyddion, syniad a gafodd gefnogaeth gref yn y cyfarfod
- 4.2.15 mewnbwn a chynrychiolaeth gan bobl ifanc ar fforymau fydd yn penderfynu eu dyfodol.

Cadw ein gwirfoddolwyr ac annog gwirfoddoli

- 4.2.16 ffordd i ddangos ein gwerthfawrogiad o wirfoddolwyr
- 4.2.17 dal i gynnwys gwirfoddolwyr yn rheolaidd fel eu bod yn llai tebygol o lithro i ffwrdd. Gallai system ganolog o'u defnyddio fod yn un dewis yn hyn o beth

4.2.18 cynlluniau mewn gweithleoedd sy'n cefnogi gwirfoddoli.

Cyfathrebu da sydd o fewn cyrraedd pawb

- 4.2.19 mynediad i bawb at dechnolegau digidol; mae absenoldeb hyn yn dwysáu anghydraddoldeb. Adolygu a mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau, yr ansawdd a'r dysgu
- 4.2.20 cadw RhCCSB a Hwb Sir Benfro, sydd mor effeithiol i rannu syniadau a rhoi cyfeiriad
- 4.2.21 datblygu'r cyfarfod presennol yn fforwm gan ei fod ar hyn o bryd yn llenwi bwlch o ran darparu gwybodaeth a phroses ar gyfer cytuno ar strategaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol.

Dileu rhwystrau ar ffordd newid

- 4.2.22 adolygu'r ffordd y caiff grwpiau cymunedol eu hariannu fel mater o frys. Nodi eu costau rhedeg craidd ac edrych am ffyrdd newydd y gellir cwrdd â'r costau hyn drwy gyfuniad o arian y sector cyhoeddus, grantiau ac arian cyfatebol
- 4.2.23 gwrthwynebu a gwrthod cynlluniau grant sy'n meithrin cystadleuaeth ac yn atal cydweithio rhwng mudiadau a grwpiau'r trydydd sector
- 4.2.24 cefnogi grwpiau newydd a rhai sy'n cael trafferthion er mwyn gwneud eu rôl yn haws ymdopi â hi ôl-COVID19 a chwrdd â'u hanghenion cymorth
- 4.2.25 datganoli cyfrifoldeb a lleihau biwrocratiaeth i ryddhau arloesedd a gweithredu cyflym.

' Rydym wedi gweithio'n dda gyda'n gilydd mewn amser o argyfwng. Felly, mae'n rhaid inni naill ai creu sefyllfa barhaus o argyfwng neu ddod o hyd i rywbeth mwy cadarnhaol y gallwn ei gefnogi - creu cymunedau gweithgar, cydgysylltiedig, a dyfeisgar ac economi lles leol gref i Sir Benfro'

Sue Leonard Prif Swyddog PAVS a chyflwynydd

Diolch i bawb oedd yn bresennol, a'r Cyflwynwyr, y Cadeiryddion a'r Ysgrifenyddion: Iwan Thomas, Sue Leonard, Ian Westley, Elaine Lorton, Mollie Roach, Barbara Bale, Lena Dixon, Amanda Stone, Alison Bullock, Cris Tomos, Caroline White, Jessie Buchanan a Sue Denman.

Mehefin 2020